



Hyb ACE Cymru
ACE Hub Wales

Canllaw ymarferol i greu Datganiad o Ymrwymiad Trawma a Phrofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod (TrACE)

I gefnogi maes parth
Llywodraethu ac Arweinyddiaeth

Ynglŷn â'r Canllaw hwn

Sylwer: mae'r canllaw hwn yn rhagdybio ymwybyddiaeth a dealltwriaeth sylfaenol o adfyd a thrawma a'r effaith y gallai ei chael. Nod y ddogfen ganllaw hon yw cynnig cymorth i sefydliadau sy'n gweithio i ddod yn ystyriol o Drawma a Phrofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod (TrACE). Mae'r ddogfen yn mynd i'r afael yn fras â materion, gan gydnabod y bydd gan bob sefydliad unigol strwythurau ac anghenion amrywiol. Mae'r canllaw hwn wedi'i lywio gan [Cymru sy'n Ystyriol o Drawma: Dull Cymdeithasol o Ddeall, Atal a Chefnogi Effeithiau Fframwaith Cymru sy'n Ystyriol o Drawma](#), ac mae'n adnodd allweddol ym [Mhecyn Cymorth Sefydliadau Ystyriol o Drawma ac ACE \(Trawma\)](#) gan Hyb ACE Cymru.

Mae pecyn cymorth TrACE yn cefnogi sefydliadau i adolygu lle mae nhw ar eu taith TrACE gan ddefnyddio set o chwech maes parth i gynorthwyo'r myfyrio hwn yn rhan o'u hunanasesiad. Mae'r canllaw hwn yn adnodd allweddol i gefnogi maes parth 'Llywodraethu ac Arweinyddiaeth' y pecyn cymorth wedi'i gyd-gynhyrchu gyda sefydliadau sydd eisoes ar eu taith TrACE eu hunain.

Mae'r parth hwn yn ymwneud â'r cymorth cyffredinol a'r buddsoddiad mewn gweithredu a chynnal dull sy'n ystyriol o drawma, ac yn yr hunanasesiad mae'n cyfeirio'n benodol at ddatblygu Datganiad Ymrwymiad yn rhan o'r ystyriaeth o'r gwaith hwn.

Llywodraethu, Arweinyddiaeth a Diwylliant Sefydliadol

Mae'r parth hwn yn ymwneud â'r cymorth cyffredinol a'r buddsoddiad mewn gweithredu a chynnal dull sy'n ystyriol o drawma.

Pwrpas y canllaw hwn yw cynorthwyo sefydliadau i greu eu Datganiad Ymrwymiad eu hunain. Mae hwn yn gam allweddol wrth greu cyd-ddealltwriaeth, pwrpas cyffredin a chyfrifoldeb am arweinyddiaeth ar bob lefel, sy'n hysbysu ac sy'n ymgysylltu â phawb yn y sefydliad. Gall Datganiad Ymrwymiad sydd wedi'i grefftio'n dda helpu i gyfleu'r bwriad a'r flaenoriaeth i ddod yn sefydliad sy'n ystyriol o TrACE i staff, defnyddwyr gwasanaeth a rhanddeiliaid ehangach.

Mae'r canllaw hwn yn defnyddio'r term Datganiad o Ymrwymiad ond rydym yn cydnabod bod llawer o ffyrdd eraill y gellir ac y dylid eu defnyddio i ddangos ymrwymiad cyhoeddus i ddod yn sefydliad sy'n ystyriol o TrACE. Nid yw Datganiad Ymrwymiad yn rhagnodol, nac yn dampled. Mae'n cyfleu ymrwymiad cryf i weledigaeth, achos cenhadol, egwyddor, neu set o werthoedd, a bennir gan, ac sy'n cyd-fynd â chymeriad a diwylliant unigryw'r sefydliad; a defnyddio iaith a phwyslais sy'n adlewyrchu hynny.

Mae'r Datganiad Ymrwymiad yn rhoi cyfle i feddwl am sut y gellir arsylwi gwerthoedd yn ymarferol trwy'r gweithgareddau a anogir trwy Becyn Cymorth TrACE.

Mae Brené Brown, athro Americanaidd, gweithiwr cymdeithasol ac awdur sy'n canolbwyntio ar gywilydd, bregusrwydd ac arweinyddiaeth, yn ein hatgoffa:

"Ni allwn ni fyw i mewn i werthoedd na allwn ni eu henwi, AC mae byw i mewn i werthoedd yn gofyn am symud o ddyheadau uchel i ymddygiadau penodol, gweladwy"

(Brené Brown, awdur Dare to Lead)¹

Yn y bôn, mae Brown yn pwysleisio, er mwyn byw ein gwerthoedd yn wirioneddol, bod angen dealltwriaeth glir o beth yw ein gwerthoedd, beth mae hyn yn ei olygu i ni yn ymarferol, a sut mae'r arfer hwnnw'n cael ei gyflawni trwy gamau diriaethol. Fel arall, bydd ein gwerthoedd yn parhau'n haniaethol ac yn anghyraeddadwy.

1 [Operationalizing Your Organization's Values - Dare to Lead Hub | Brené Brown \(brenebrown.com\)](#)

Cyflwyniad

Mae Datganiad Ymrwymiad yn ddatganiad ffurfiol gan sefydliad sy'n mynegi ymroddiad i ddull gweithredu. Mae'n gosod cyfeiriad clir i'r sefydliad, gan amlygu pwysigrwydd mynd i'r afael â thrawma a chreu amgylchedd cefnogol i bawb sy'n cael profiad o'r sefydliad. Mae'n helpu i sicrhau aliniad o fewn sefydliad, gan hyrwyddo cysondeb mewn arferion, sy'n hanfodol ar gyfer darparu gwasanaethau effeithiol, cydlynol a chefnogol.

Gall Datganiad o Ymrwymiad fod yn arf cyfathrebu pwerus. Mae'n cyfleu ymrwymiad y sefydliad i staff, defnyddwyr gwasanaeth, rhanddeiliaid, partneriaid, a'r cyhoedd ehangach, gan hyrwyddo ymddiriedaeth, tryloywder, dealltwriaeth ac atebolrwydd.

Mae llunio Datganiad o Ymrwymiad yn dangos arweinyddiaeth ac ymagwedd ragweithiol at atebolrwydd. Gall ysbrydoli eraill i wneud yr un peth a chyfrannu at ddiwylliant o werthoedd a chyfrifoldebau cyffredin. Mae'n ddatganiad o fwriad pwrpasol a all lywio gweithredoedd a phenderfyniadau dros amser.

Pam llunio Datganiad o Ymrwymiad TrACE:

Mae llunio Datganiad o Ymrwymiad o amgylch taith TrACE yn anfon neges bwysig a all fod o fudd i'r sefydliad wrth iddo ddechrau datblygu ei ddatganiad ei hun. Isod mae rhai o'r manteision posibl i sefydliadau wrth ddewis llunio Datganiad o Ymrwymiad ar gyfer TrACE, yn seiliedig ar brofiad sefydliadau sydd eisoes wedi gwneud hynny:

- **Eglurhad o Fwriadau:**

Mae llunio Datganiad o Ymrwymiad yn gyfle i fynegi ac egluro gwerthoedd sefydliadol. Anfonir arwydd clir o'r hyn sy'n bwysig i'ch sefydliad a sut, trwy ymarfer, mae gweithredoedd unigolion yn cyfrannu at ymrwymiad y sefydliad i'r gwerthoedd hyn a'r gwaith o'u gweithredu ym mhopeth a wna. Gall hyn fod yn arbennig o bwysig wrth integreiddio arfer wedi'i lywio gan TrACE i wahanol agweddau ar eich sefydliad; mae newid a thwf sefydliadol yn cael eu cynnal gan gyd-ddealltwriaeth o'r pwrpas, bwriad a gwerthoedd a chyfrifoldeb i gadw atynt. Mae hon yn broses y mae angen ymddiried ynnddi; mae bwriadau clir o'r cychwyn yn helpu i adeiladu'r ymddiriedaeth honno rhwng pobl ac yn hyrwyddo aliniad gyda'r sefydliad. Mae'r berthynas hon yn cefnogi ymgysylltiad â'r broses newid ymhellach.

- **Creu Atebolrwydd:**

Mae Datganiad Ymrwymiad ffurfiol yn dal y sefydliad yn atebol am ei addewidion. Mae'n arwydd i staff, defnyddwyr gwasanaeth, a'r gymuned bod y sefydliad wedi ymrwmo i weithredu TrACE yn ymarferol, ac y bydd yr ymrwymiad hwn yn cael ei fonitro a'i werthuso. Felly, mae angen i sefydliad feddwl sut mae'r Datganiad Ymrwymiad hwn yn cael ei wneud yn weladwy a'i integreiddio yn y ffordd y mae'n gweithredu. Gallai'r datganiad fynd ar wefan y sefydliad, ac wedi'i alinio'n glir â gwerthoedd ac uniondeb y sefydliad sy'n hygyrch i staff presennol a defnyddwyr gwasanaeth. Gallai gael ei gynnwys mewn pecyn sefydlu staff, llofnodion e-bost a gwybodaeth cymorth i weithwyr. Rhaid i'r datganiad hefyd gynnwys gwybodaeth glir am yr hyn sy'n digwydd os na chaiff yr ymrwymadau hyn eu cyflawni, a lle mae'r atebolrwydd hwnnw, a rhaid iddi fod o'r brig i lawr ac o'r gwaelod i fyny.

- **Newid Diwylliannol:**

Gall datblygu diwylliant sy'n cefnogi sefydliad sy'n ystyriol o TrACE fod yn newid sylweddol yn ei weithrediadau. Gall Datganiad o Ymrwymiad helpu i gychwyn a chynnal y newid diwylliannol hwn, trwy nodi'r weledigaeth a'r genhadaeth a chychwyn o fan cyd-ddealltwriaeth. Mae newid diwylliannol yn cymryd amser, ac mae pobl yn profi newid mewn gwahanol ffyrdd ac ar gyflymder gwahanol. Gall myfyrio ar pam yr ydych yn cychwyn ar y daith, ac ailedrych ar hynny drwyddi draw, helpu i gadw eglurder o ran yr hyn yr ydych chi'n ceisio ei gyflawni a pham rydych chi'n ei wneud. Er enghraifft, atgoffa staff y bydd sefydliad sy'n ystyriol o TrACE, gyda charedigrwydd a thosturi yn ganolog iddo, o fudd iddynt hwy yn unigolion a'r gwasanaeth y maent yn ei ddarparu i eraill. Dylid ystyried y newid yn un cadarnhaol o'r cychwyn cyntaf.

- **Gwydnwch a Llesiant:**

Mae ymagwedd at drawma ac adfyd sy'n seiliedig ar gryfderau yn canolbwyntio ar wytnwch a lles. Mae cyfathrebu hyn drwy'r Datganiad o Ymrwymiad yn bwysig fel bod pawb sy'n cael profiad o'r sefydliad yn gallu teimlo'n sicr bod adferiad ac iachâd o brofiadau o adfyd neu drawma yn cael eu blaenoriaethu a bod llesiant yn cael ei hyrwyddo'n gyson drwy'r sefydliad.

- **Gwelliant Parhaus:**

Ochr yn ochr â phrosesau hunanasesu a chynllunio gweithredu Pecyn Cymorth TrACE, gall y Datganiad o Ymrwymiad fod yn bwynt cyfeirio gwyh i adolygu cynnydd o ran y daith TrACE. Gall y Datganiad o Ymrwymiad hefyd esblygu dros amser - dylai taith TrACE fod yn ddull myfyriol a chynhwysol sy'n ceisio dysgu a datblygu gwybodaeth a doethineb yn barhaus wrth i'r gwaith fynd rhagddo. Bydd y datganiad, a'i ddatblygiad, hefyd yn adlewyrchu'r dysgu a'r cynnydd a wnaed, ac yn cyd-fynd ag ymrwymadau sefydliadol cysylltiedig eraill i wella cydraddoldeb ac amrywiaeth, er enghraifft, neu fynediad at gymorth ar gyfer iechyd a llesiant.

Datblygu eich Datganiad Ymrwymiad TrACE eich hun

Mae'r Fframwaith '[Cymru Ystyriol o Drawma: Ymagwedd Gymdeithasol at Ddeall, Atal a Chefnogi Effeithiau Trawma ac Adfyd](#)' wedi'i seilio ar gyfres o bum egwyddor ymarfer (gweler Diagram 1) ac mae'n bwysig ystyried sut y gellir cynnwys y rhain wrth lunio Datganiad o Ymrwymiad.

Diagram 1: Pum Egwyddor Ymarfer



Pwy sydd angen cymryd rhan?

Fel y nodwyd yn yr [Adolygiad Parodrwydd ar gyfer Gweithredu](#), dylech chi ar hyn o bryd fod wedi ffurfio grŵp llywio mewnol TrACE gydag amrywiaeth o bobl mewn trawstoriad o rolau a chyfrifoldebau yn gweithio ar y cyd â chi ar daith TrACE. Gall y grŵp hwn helpu i lunio ac arwain datblygiad y Datganiad Ymrwymiad.

Mae'r Datganiad Ymrwymiad yn amcan ym mharth Arweinyddiaeth a Llywodraethu Pecyn Cymorth TrACE a bydd angen iddo adlewyrchu ymrwymiad strategol y rhai sy'n gwneud penderfyniadau a'r rhai sy'n gwneud newidiadau o ran cyd-gynhyrchu â'r rhai sy'n cael profiad o'r sefydliad. Dylai'r Datganiad o Ymrwymiad fod yn gytundeb cyffredin sydd wedi'i gyd-greu a'i ddatblygu ar y cyd â staff, defnyddwyr gwasanaethau a, lle bo'n briodol, y gymuned ehangach. Byddai hon yn strategaeth amhrisiadwy i sicrhau bod yr ymrwymiad yn berthnasol ac yn ychwanegu gwerth at waith eich sefydliad. Mae'r dull cydweithredol hwn nid yn unig yn glynu at yr arferion cydgyhyrchu gorau ond mae hefyd yn cyd-fynd â'r pum egwyddor arfer (gweler diagram 1). Mae grŵp llywio mewnol TrACE yn fecanwaith y gallwch ei ddefnyddio i yrru'r gwaith o ddatblygu'r gwaith hwn yn ei flaen.

Sut i greu Datganiad o Ymrwymiad TrACE

Isod mae pum maes i sefydliadau eu hystyried wrth gychwyn datblygiad Datganiad o Ymrwymiad, a mynegi beth mae dull TrACE yn ei olygu i chi (nid yw'r rhestr hon yn hollgynhwysfawr a gellir ei theilwra i gyd-fynd â'r cyd-destun y mae'r sefydliad yn gweithio ynddo):

1. Cyflwyniad:

Dechreuwch trwy ddarparu cyflwyniad cryno sy'n dangos pam mae eich sefydliad yn cychwyn ar y daith hon. Dylech chi ddangos ymwybyddiaeth o achosion eang a chanlyniadau posibl trawma ac adfyd ehangach a dangos dealltwriaeth o'r hyn y mae TrACE yn ei olygu yn y cyd-destun y mae eich sefydliad yn gweithio ynddo.

Pwysleisiwch arwyddocâd creu amgylchedd cefnogol a chydabyddwch yn agored y gall trawma ac adfyd ddigwydd i unrhyw un, gan gydnabod y gall gael effaith ddofn ar unigolion a chymunedau, os nad yw'r cymorth cywir yn ei le neu'n hygyrch. Dylai hyn fod yn gysylltiedig â gwerthoedd y sefydliadau – pam ydych chi'n cychwyn ar y daith hon a beth mae hyn yn ei olygu? Bydd hyn yn cael ei lywio gan y sgysiau a gewch i ddatblygu'r weledigaeth a'r genhadaeth hon.

2. Empathi a Dealltwriaeth:

Dylai naws y datganiad ddangos caredigrwydd, empathi a thosturi tuag at unrhyw un sy'n cael profiad o'r sefydliad. Wrth ddod yn sefydliad sy'n ystyriol o TrACE rydych chi'n ymrwymo i sicrhau amgylchedd diogel a chynhwysol lle mae unigolion yn teimlo eu bod yn cael eu cydnabod, eu gwerthfawrogi a'u cefnogi.

3. Gwelliant Parhaus:

Ymrwymo'r sefydliad i fyfyrion a dysgu'n barhaus, gan gydnabod pwysigrwydd cynyddu gwybodaeth am yr hyn y mae'r sefydliad yn ei wneud yn dda a meysydd y mae angen rhagor o ffocws arnynt. Rhoi sicrwydd bod datblygu'r gweithlu a chymorth yn ganolog i'r dull gweithredu ac mae ymrwymiad i gydweithio i wreiddio Pum Egwyddor Ymarfer Fframwaith Cymru sy'n Ystyriol o Drawma. Fel rhan o hyn, bydd polisïau ac arferion, yn ogystal ag unrhyw anghenion hyfforddi, yn cael eu hadolygu. Bydd datblygiad dangosyddion llwyddiant hefyd yn cael ei ystyried i ddangos sut y bydd y dull hwn yn effeithio'n gadarnhaol ar bawb yn y sefydliad. Yn ogystal, bydd y cyflawniadau hyn yn cael eu monitro a'u gwerthuso'n barhaus.

4. Cydweithio, Gwydnwch ac Iacháu:

Tynnu sylw at eich ymrwymiad i hybu gwydnwch ac iachâd, gan danlinellu arwyddocâd meithrin amgylcheddau cadarnhaol sy'n galluogi gweithgareddau cydgynhyrchu gyda phawb sy'n cael profiad o'r sefydliad.

Cyfleu eich parodrwydd i gydweithio'n ehangach nag eichch sefydliad ag unigolion, sefydliadau a chymunedau mewn ymdrech ar y cyd i atal, mynd i'r afael a lliniaru effaith trawma ac adfyd.

Mae cyd-gynhyrchu yn gwerthfawrogi arbenigedd a phrofiadau pawb, ac mae deinameg pŵer yn cael ei lefelu i sicrhau bod pob llais yn cael ei glywed a'i ystyried. Mae'r dull hwn yn cydnabod bod y rhai sy'n defnyddio gwasanaethau yn aml yn cael canfyddiad amhrisiadwy i'w heffeithiolrwydd a'r meysydd i'w gwella. Mae cydweithio a chyd-gynhyrchu ystyrllon yn ymdrechu i greu gwasanaethau ac atebion sy'n fwy ymatebol, cynhwysol ac effeithiol, gan arwain yn y pen draw at ganlyniadau gwell i bawb dan sylw y gellir eu hadlewyrchu yn y Datganiad o Ymrwymiad.

5. Casgliadau:

Gorffennwch gyda galwad i weithredu i annog eraill i ymuno â'r daith i ddod yn sefydliad sy'n ystyriol o TrACE gan ddarparu gwybodaeth ar sut i gymryd rhan.

Unwaith y caiff ei ddatblygu, mae'n bwysig, fel y nodir uchod, ystyried y dulliau gorau o gyfleu'r Datganiad o Ymrwymiad fel bod y sefydliad cyfan yn ymwybodol bod hyn wedi'i wneud. *Rydym wedi cynnwys enghraifft o sefydliad sydd wedi creu Datganiad o Ymrwymiad fel rhan o'i daith i wreiddio arfer sy'n seiliedig ar TrACE (gweler atodiad 1).*


Crynodeb

Mae ymgorffori Datganiad o Ymrwymiad yn arf gwerthfawr ar y daith i ddod yn sefydliad sy'n ystyriol o TrACE. Mae'n caniatáu ar gyfer llwybr diffiniedig ac yn hyrwyddo atebolrwydd.

Mae defnyddio cydgynhyrchu i lunio'r Datganiad o Ymrwymiad yn gwella cydberchnogaeth gyda phawb sy'n profi'r sefydliad gan ei fod yn annog cyfranogiad defnyddwyr gwasanaeth, staff a rhanddeiliaid ehangach.

Mae'n bwysig asesu sut mae'r Datganiad Ymrwymiad yn cyd-fynd â Phum Egwyddor Ymarfer Fframwaith Cymru sy'n Ystyriol o Drawma, wrth adlewyrchu hefyd werthoedd unigryw ac amcanion craidd y sefydliad. Er mwyn sicrhau bod yr ymrwymiad yn ystyrllon ac yn llwyddiannus, rhaid iddo fod yn ddilys a sicrhau ei fod yn cyfleu'n effeithiol ei berthnasedd i rôl pawb mewn sefydliad.

Atodiad 1



Prifysgol Aberystwyth – Astudiaeth Achos

Mae'r tîm ym Mhrifysgol Aberystwyth wedi myfyrio ar ble rydyn ni arni ar ein taith i fod yn ystyriol o TrACE, a lle mae angen i ni ganolbwyntio ein hymdrechion. Rydyn ni wedi arwain cynadleddau codi ymwybyddiaeth ac wedi cynnal sgysiau wedi'u targedu ynghylch meysydd allweddol. Yn fwyaf diweddar, mae'r rhain wedi cynnwys 'sgysiau cymunedol' i ymgysylltu, gwranddo a chlywed sut mae pobl yn ein cymuned yn cael profiad o arweinyddiaeth a llywodraethu, polisiâu a gweithdrefnau a darpariaeth gwasanaethau. Fe wnaethon ni eu defnyddio hefyd i feddwl am sut rydyn ni'n cyfathrebu, yn monitro ac yn gwerthuso. Dangosodd y sgysiau ein bod ni wedi ymrwmo i adeiladu ar yr hyn sydd eisoes yn gweithio, dathlu hynny, ac i wneud newid cadarnhaol. Nodwyd yr angen i gyfleu hynny er mwyn gwneud hyn yn fusnes i bawb, ac i ddatblygu cynllun gweithredu i'w symud ymlaen.

Gan ddefnyddio'r wybodaeth, y sgysiau, a'r mewnbwn ar draws yr holl ddigwyddiadau ymgysylltu gwahanol, a chydag arbenigedd ein grwpiau Cyngori ac Arbenigol yn cefnogi datblygiad y gwaith hwn, rydyn ni wedi cyd-greu datganiad ar y cyd ag Undeb Aberystwyth sy'n nodi ein Datganiad o Ymrwymiad i TrACE fel Prifysgol Aberystwyth. Bydd hyn wedyn yn llywio'r camau nesaf, i gyfleu bod hwn yn ddull cyfunol gwirioneddol sy'n ymgorffori egwyddorion yr hyn rydyn ni am ei gyflawni, a sut yr ydym yn ei wneud.

Y datganiad yw:

Prifysgol Aberystwyth: Cymuned Ystyriol o Drawma a Phrofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod (TrACE)

Mae gan Gymru uchelgais i ddod yn wlad sy'n ystyriol drawma, ac yn rhan o hynny, mae ein cymuned wedi dod at ei gilydd mewn sgwrs i ddeall beth mae hynny'n ei olygu i ni ym Mhrifysgol Aberystwyth. Dros sawl sesiwn, mae myfyrwyr, ymarferwyr gwasanaethau proffesiynol, academyddion, uwch arweinwyr ac Undeb Aberystwyth, wedi cyd-greu cyd-ddealltwriaeth sy'n gynhwysol, ac sy'n ein cysylltu ni a'n gwerthoedd. Mae Prifysgol Aberystwyth yn credu bod gan bawb yr hawl i ddysgu a gweithio mewn amgylchedd trawsnewidiol a chynhwysol ac fel cymuned:

Credwn fod profiadau pawb o'r hyn sy'n digwydd yn eu bywydau yn ddilys.

Bydd cryfderau unigolion a'n cymuned yn ein cefnogi i lywio profiadau a all effeithio ar ein hiechyd a'n lles unigol a chyfunol trwy gysylltiad cymunedol, caredigrwydd a thosturi.

Credwn fod pob llais yn bwysig ac y dylai pawb allu cael mynediad at gymorth sy'n briodol i'n hanghenion ac yn eu diwallu.

Trwy gyd-greu, cysylltedd a chydweithio gallwn ddefnyddio ein cryfderau, gan gofio pwy ydyn ni fel unigolion, i ysgogi newid cadarnhaol ar y cyd.

I'n cefnogi ar ein taith, rydym yn gweithio gyda Hyb ACE Cymru i roi pecyn cymorth TrACE ar waith, adnodd sefydliadol sy'n ein helpu i fyfyrion ar y cyd ar ein dealltwriaeth o adfyd a thrawma ym mhob rhan o'n cymuned - o arweinyddiaeth a llywodraethu, polisi a gweithdrefnau, ein hamgylchedd a'n diwylliant, a sut rydym yn darparu ein gwasanaethau, i sut rydym yn casglu tystiolaeth ar yr hyn sy'n gweithio. Byddwn yn cysylltu'r gwaith rydyn ni'n ei wneud sy'n ymdrechu i hyrwyddo cydraddoldeb a diogelwch a hyrwyddo amgylcheddau dysgu a gweithio cynhwysol mewn ffordd sy'n dangos ein bod ni'n gwerthfawrogi profiadau byw ac sy'n defnyddio ein llais ar y cyd ar gyfer newid.

Mae pawb yn bartneriaid yn ein cymuned, ac mae pawb yn rhan o'r daith hon. I gael gwybod mwy am yr hyn rydym yn ei wneud, a sut y gallwn ni i gyd gyfrannu at y weledigaeth cysylltwch â trace@aber.ac.uk.

Mae'r datganiad wedi'i lofnodi a'i gymeradwyo'n swyddogol gan:

- Is-ganghellor Prifysgol Aberystwyth, yr Athro Jon Timmis
- Llywydd Undeb Aberystwyth, Bayanda Vundamina.

Hoffem ddiolch i 'Grŵp tasg a Gorffen' Cymuned Ymarfer TrACE am ein helpu i gyddatblygu'r adnodd hwn.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â Hyb ACE Cymru
Cyfeiriad: 2 Capital Quarter, Stryd Tyndall, Caerdydd, CF10 4BZ
E-bost ACE@wales.nhs.uk
Gwefan www.acehubwales.com

© 2024 Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru

Mae deunydd yn y ddogfen hon yn gallu cael ei atgynhyrchu o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored (OGL) www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3/ ar yr amod ei fod yn cael ei wneud yn gywir ac nad yw'n cael ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Cydnabyddiaeth i Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru i'w ddatgan. Oni nodir yn wahanol, mae hawlfraint y trefniant teipograffyddol, y dyluniad a'r gosodiad yn eiddo i Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru.